



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Cynllunio Gweithlu Dwyieithog: Adroddiad Terfynol

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

09/09/24

Cynllunio Gweithlu Dwyieithog: Adroddiad Terfynol

IAITH Cyf.

Iolo Jones a Kathryn Jones

IAITH Cyf.

Uned 3,
Parc Busnes Aberarad,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gâr, SA38 9DB

Ff 01239 711668

E post@iaith.cymru

www.iaith.cymru

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	iv
Cefndir a Methodoleg	1
Canfyddiadau.....	4
1. Anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith.....	4
2. Disgrifio'r gofynion iaith a hysbysebu swyddi.....	5
3. Cynnal cyfweiliadau ac asesu gallu a hyder iaith ymgeiswyr.....	10
4. Cynefino a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau yn y gweithle.....	11
Allbwn.....	15
Denu ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg.....	17
Atodiadau.....	19
Atodiad A: Cwestiynau'r Arolwg.....	19
Atodiad B: Data'r Arolwg.....	32
Atodiad C: Y Canllaw Cyfwdeld.....	50

1. Cefndir a Methodoleg

Comisiynwyd *IAITH: y ganolfan gynllunio iaith* gan is-grŵp iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn i ymchwilio i heriau a llwyddiannau cynllunio gweithlu dwyieithog ymhlith sefydliadau sy'n rhan o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gogledd Cymru¹.

Yn benodol, gofynnwyd i IAITH archwilio:

- pam mae sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Cymru yn cael anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith, ac
- a yw'r ateb yn gorwedd o fewn y prosesau recriwtio eu hunain

Nid yw pob sefydliad sydd yn aelod o dri BGC gogledd Cymru yn ddarostyngedig i safonau iaith Gymraeg. O ganlyniad nid oedd yn rhan o'r briff i ystyried cydymffurfiaeth â'r safonau.

Cytunwyd y byddai IAITH yn cynorthwyo'r sefydliadau o fewn tri BGC gogledd Cymru i ddeall y materion allweddol sydd ynghlwm â recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r camau canlynol o'r broses recriwtio:

- Lleoli hysbysiadau swyddi a disgrifio'r gofynion iaith
- Cynnal cyfweiliadau ac asesu gallu iaith ymgeiswyr
- Cynefino a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau yn y gweithle

Gwahoddwyd y 24 sefydliad sy'n ffurfio'r tri BGC i gymryd rhan yn yr ymchwil.

Aeth IAITH ati i gasglu tystiolaeth trwy'r dulliau canlynol:

- Seminar 1 (Mynychodd cynrychiolwyr o 12 sefydliad)
- Arolwg (Cwblhawyd gan 15 sefydliad)
- Casglu dogfennau polisi (Derbyniwyd dogfennau wrth saith sefydliad)
- Cyfweiliadau (Cyfwelwyd ag wyth person)
- Seminar 2 (Mynychodd cynrychiolwyr o 14 sefydliad)

2. Canfyddiadau

Anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith

- Roedd canran y swyddi gyda gofynion iaith Gymraeg a hysbysebwyd yn 2023 ac a lenwyd yn amrywio'n sylweddol o 0% i 97%.
- Nododd mwyafrif helaeth y sefydliadau eu bod yn cael trafferth denu ymgeiswyr sy'n medru'r Gymraeg i swyddi sy'n nodi'r angen am sgiliau iaith Gymraeg

¹ Mae tri BGC yn gwasanaethu gogledd Cymru sef byrddau 'Gwynedd a Môn', 'Conwy a Dinbych' a 'Sir Y Fflint a Wrecsam'.

- Yn ôl y sefydliadau, mae'n anodd denu ymgeiswyr sy'n medru Cymraeg i bob math o swyddi, yn cynnwys: cyfieithwyr, peirianwyr, archifwyr, cymorthyddion dosbarth ayyb.
- Adroddodd y sefydliadau bod gallu Cymraeg ymgeiswyr swyddi yn amrywiol ond bod tuedd i'r mwyafrif o ymgeiswyr fod ag ychydig o eiriau o Gymraeg yn unig.
- Ar y cyfan, nid oedd sefydliadau yn gostwng gofynion iaith wrth hysbysebu swyddi am yr eildro.
- Mae sefydliadau yn penodi staff heb y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi.

Disgrifio'r gofynion iaith

- Mae cryn amrywiaeth yn y ffyrdd mae sefydliadau yn cyfleu a disgrifio gofynion iaith Gymraeg eu swyddi.
- Defnyddia rhai systemau lefelau (e.e. Lefel 1-5) tra bod eraill yn defnyddio systemau deuaidd hanfodol/dymunol neu amrywiaethau ar y system honno.
- Ar y cyfan roedd trefn a chanllawiau yn eu lle ar gyfer pennu gofynion iaith swyddi.
- Nododd un sefydliad mai barn y rheolwr sy'n llywio proses categoreddio eu swyddi.

Hysbysebu swyddi

- Nododd y rhan fwyaf o'r sefydliadau bod gofynion iaith Gymraeg wedi eu gosod ar fwyafrif/pob swydd a hysbysebwyd ganddynt yn 2023.
- Mae'r mwyafrif o'r sefydliadau yn nodi categori gofynion iaith y swydd yn yr hysbyseb a'r swydd ddisgrifiad
- Roedd un sefydliad yn ei osod yn yr hysbyseb yn unig, un arall yn y swydd ddisgrifiad yn unig, a'r gweddill yn nodi gofynion yn y fanyleb personol.
- Mae'r mwyafrif o sefydliadau yn cyfeirio ymgeiswyr at eu polisi iaith Gymraeg yn eu dogfennaeth hysbysebion swyddi
- Pan ddaw at hysbysebu swyddi sy'n galw am sgiliau Cymraeg mae bron pob sefydliad yn hysbysebu ar eu gwefannau eu hunain
- Mae ychydig dros hanner y sefydliadau yn hysbysebu oddi ar lein
- Yn ystod Seminar 1 daeth i'r amlwg bod gan fynychwyr deimladau ffafriol am rhai gwefannau (yn eu plith oedd Facebook a Golwg360), a theimladau anffafriol am eraill (yn eu plith oedd Safle Swyddi a Swyddle). Roedd gwahaniaeth barn ynghylch ambell wefan (e.e. Indeed a Lleol.Cymru).

Cynnal cyfweiliadau

- Mae mwyafrif helaeth y sefydliadau yn sicrhau bod modd i ymgeiswyr nodi eu dewis-iaith ar gyfer y cyfweiliad o flaen llaw.
- Mae'r mwyafrif yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr ar gyfer pob swydd (boed i'r swydd gofynion iaith Gymraeg ai peidio) fel rhan o'r broses recriwtio.
- Mae pob sefydliad yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr yn achosion swyddi sy'n galw am sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses recriwtio.
- Mae bron pob sefydliad yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg i staff.
- Roedd mynychwyr Seminar 1 yn cytuno bod angen sicrhau bod mwyafrif y panel yn siaradwyr Cymraeg mewn achosion pan dymuna'r ymgeisydd gyfweiliad Cymraeg.

- Rhannwyd y farn yn Seminar 1 ei fod yn allweddol bod trefniadau ieithyddol cyfweliadau yn cael eu hegluro'n glir i ymgeiswyr.

Asesu gallu a hyder iaith ymgeiswyr

- Daeth i'r amlwg yn Seminar 1 mai'n anaml iawn mae'r arfer o asesu sgiliau iaith ymgeiswyr yn un ffurfiol.
- Roedd teimlad yn Seminar 1 bod y broses o asesu sgiliau Cymraeg yn rhy ddwys, ac nad oedd sgiliau Saesneg yn cael eu craffu arnynt i'r un graddau. Rhannwyd y farn bod angen craffu llai dwys ar sgiliau Cymraeg.
- Rhannwyd y farn yn Seminar 1 bod gwaith i'w wneud o ran codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rheolwyr o wahanol lefelau/agweddau ar sgiliau iaith.

Datblygu sgiliau yn y gweithle

- Nododd mwyafrif y sefydliadau bod llai na hanner eu staff newydd - y rheiny a gafodd eu penodi am y tro cyntaf yn 2023 - wedi derbyn hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.
- Mae sefydliadau yn rhoi gwybod i staff, darpar staff ac ymgeiswyr swyddi am gyfleoedd dysgu/hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg trwy ddau ddull yn bennaf: rhannu gwybodaeth trwy e-byst i staff a rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd arfarnu perfformiad.
- Mae gan y mwyafrif o'r sefydliadau drefn mewn lle i gefnogi, monitro ac arfarnu datblygiad sgiliau iaith staff a'r defnydd a wnânt o'r Gymraeg yn y gwaith.
- Mae'r sefydliadau yn codi ymwybyddiaeth staff, darpar staff ac ymgeiswyr swyddi ynghylch eu natur dwyieithog trwy amryw o ddulliau. Codi ymwybyddiaeth trwy'r broses anwytho staff newydd yw'r dull mwyaf poblogaidd. Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith sydd ail.

3. Allbwn

Yn sgil camau casglu tystiolaeth yr astudiaeth hon aethpwyd ati i gyd-gynhyrchu rhestr wirio hygyrch ar gyfer recriwtwyr yng ngogledd Cymru. Ceir fersiwn cryno o'r rhestr wirio yn ar t16. Mae fersiwn manylach ar tt 17-18 yr adroddiad.

Cefndir

Comisiynwyd *IAITH: y ganolfan gynllunio iaith* gan is-grŵp iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn i ymchwilio i heriau a llwyddiannau cynllunio gweithlu dwyieithog ymhlith sefydliadau sy'n rhan o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gogledd Cymru².

Yn benodol, gofynnwyd bod IAITH yn archwilio:

- pam mae sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Cymru yn cael anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith, ac
- a yw'r ateb yn gorwedd o fewn y prosesau recriwtio eu hunain.

Nid yw pob sefydliad sydd yn aelod o dri BGC gogledd Cymru yn ddarostyngedig i safonau iaith Gymraeg. O ganlyniad nid oedd yn rhan o'r briff i ystyried cydymffurfiaeth â'r safonau.

Nod y prosiect oedd y byddai IAITH yn cynorthwyo'r sefydliadau o fewn tri BGC gogledd Cymru i ddeall y materion allweddol sydd ynghlwm â recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r camau canlynol o'r broses recriwtio:

- Lleoli hysbysiadau swyddi a disgrifio'r gofynion iaith
- Cynnal cyfweiliadau ac asesu gallu iaith ymgeiswyr
- Cynefino a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau yn y gweithle

Gwahoddwyd y 24 sefydliad sy'n ffurfio'r tri BGC i gymryd rhan yn yr ymchwil, sef:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
- Coleg Cambria
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Grŵp Llandrillo Menai
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Mantell Gwynedd

² Mae tri BGC yn gwasanaethu gogledd Cymru sef byrddau 'Gwynedd a Môn', 'Conwy a Dinbych' a 'Sir Y Fflint a Wrecsam'.

- Medrwn Môn
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Wrecsam
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf (Gogledd Cymru) a CEF Berwyn

Methodoleg

Aeth IAITH ati i gasglu tystiolaeth trwy'r dulliau canlynol:

- Seminar 1
- Arolwg
- Casglu dogfennau polisi
- Cyfweliadau
- Seminar 2

Seminar 1

Cynhaliwyd y seminar gyntaf (Seminar 1) yn Llanelwy ddiwedd mis Ionawr. Mynychodd cynrychiolwyr o 12 sefydliad. Roedd y seminar yn gyfle i rannu cyd-destun ac amcanion y prosiect â'r rheiny a oedd yn bresennol, ac i gasglu tystiolaeth ac enghreifftiau o heriau ac arferion da oddi wrthynt. Wedi'r cyflwyniadau agoriadol lle rhannwyd gwybodaeth am y prosiect, bu'r mynychwyr yn trafod eu profiadau mewn perthynas â phedair prif thema:

- gallu a hyder staff ac ymgeiswyr swyddi i ddefnyddio'r Gymraeg / Mathau o siaradwyr Cymraeg – ystyriaethau wrth recriwtio
- lleoli hysbysiadau swyddi a disgrifio'r gofynion iaith
- cynnal cyfweliadau ac asesu gallu a hyder iaith ymgeiswyr
- cynefino a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

I gloi'r seminar, gwahoddwyd y mynychwyr i rannu enghreifftiau o heriau maent yn eu hwynebu, ynghyd â datrysiadau ymarferol i'r heriau rheiny.

Arolwg

Anfonwyd dolen at holiadur ar-lein at bob un sefydliad, ac roedd y ddolen honno yn fyw rhwng dechrau Ionawr a chanol Chwefror. Roedd yr holiadur yn gofyn am lwyddiant sefydliadau wrth recriwtio staff â sgiliau Cymraeg, ac yn gwahodd sefydliadau i rannu enghreifftiau o'u harferion ar gyfer cymalau gwahanol o'r broses recriwtio. Cafodd yr holiadur ei gwblhau gan 15 o'r 24 sefydliad.

Mae copi o'r holiadur wedi ei chynnwys yn Atodiad A ynghyd â'r dystiolaeth a gafodd ei gasglu o'r holiadur yn Atodiad B.

Casglu dogfennau polisi

Gwahoddwyd y 24 sefydliad i rannu dogfennau polisi recriwtio ynghyd â dogfennau perthnasol eraill. Derbyniwyd dogfennau gan saith sefydliad rhwng dechrau Ionawr a diwedd Chwefror.

Cyfweliadau

Cyfwelwyd wyth person gyda phob un yn dod o dan un o'r categorïau isod. Ar gyfer pob categori cyfwelwyd â dau berson:

- staff sydd wedi ymgeisio am swyddi Cymraeg yn Hanfodol
- staff sy'n siaradwyr Cymraeg ond na amlygodd hynny yn ystod y broses recriwtio
- rheolwyr sy'n ansicr am ddynodi swyddi yn rhai Cymraeg yn Hanfodol
- staff ar wahanol raddfeydd swyddi a mathau o swyddi sydd yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith yn y gwaith.

Bwriad y cyfweliadau oedd creu darlun ansoddol o brofiadau unigolion oddi fewn i'r categorïau rhain.

Mae copi o'r canllaw cyfweld yn Atodiad C.

Seminar 2

Cynhaliwyd ail seminar (Seminar 2) yn Llanelwy ddiwedd mis Ebrill (tua diwedd cyfnod y prosiect). Mynychodd cynrychiolwyr o 14 sefydliad. Roedd y seminar hon yn gyfle i drafod tystiolaeth a gasglwyd trwy'r ymchwil, ac i fynnu adborth. Bu trafodaeth am astudiaethau achos yr adroddiad hwn, a'r gwersi y gallai sefydliadau ddysgu ohonynt. Roedd cyfle hefyd i fynychwyr rhannu adborth am yr allbwn 'Recriwtio? Sut i ddenu ymgeiswyr gyda sgiliau Cymraeg' a welir islaw (tt 17-18).

Canfyddiadau

Bwriad yr astudiaeth hon oedd archwilio pam bod sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Cymru yn cael anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith, ac a yw'r ateb yn gorwedd o fewn y prosesau recriwtio eu hunain. Yn yr adran hon, adroddir ar ganfyddiadau'r prosiect ymchwil hwn gan dynnu ar y dystiolaeth a gasglwyd trwy'r arolwg, y cyfweiliadau, trafodaethau seminarau 1 a 2, a'r dogfennaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan gyfranogwyr o'r sefydliadau a gyfrannodd i'r ymchwil.

Rhannwyd canfyddiadau'r prosiect yma dan y prif themâu canlynol:

1. Anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith
2. Disgrifio'r gofynion iaith a hysbysebu swyddi
3. Cynnal cyfweiliadau ac asesu gallu a hyder iaith ymgeiswyr
4. Cynefino a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau yn y gweithle

Isod trafodir y pedwar thema, gyda'r ffocws ar themâu 2 a 3 yn bennaf. Rhoddir sylw penodol i'r arferion y mae sefydliadau yn eu harddel yn ogystal ag ymatebion posib i heriau y mae sefydliadau yn eu hwynebu.

1. Anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith

- Roedd canran y swyddi gyda gofynion iaith Gymraeg a hysbysebwyd yn 2023 ac a lenwyd yn amrywio'n sylweddol o 0% i 97%.
- Nododd y mwyafrif helaeth o sefydliadau (14/15 sefydliad) eu bod yn cael trafferth denu ymgeiswyr sy'n medru'r Gymraeg i swyddi sy'n nodi'r angen am sgiliau iaith Gymraeg (Atodiad B, Siart 1)
- Yn ôl y sefydliadau, mae'n anodd denu ymgeiswyr sy'n medru Cymraeg i bob math o swyddi, yn benodol swyddi 'derbynfa' a 'technegol' (Siart 2). Nododd sefydliadau hefyd ei bod yn anodd denu ymgeiswyr gyda sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi gofal, gweinyddol, rheolwyr, cyllid, a swyddi arbenigol megis iechyd a diogelwch, adnoddau dynol, cynllunio, TGCH (datblygwyr a pheirianwyr meddalwedd) ac arbenigwyr hydrometreg. Roedd yr amrywiaeth o swyddi a nodwyd hefyd yn cynnwys: cyfieithwyr ac atebwyr ffôn (call handlers), peirianwyr, archifwyr, cymorthyddion dosbarth, swyddogion iechyd a diogelwch, staff adnoddau dynol a swyddi gweithredol mewn carchar a'r gwasanaeth prawf (Siart 2).
- Adroddodd y sefydliadau bod gallu Cymraeg ymgeiswyr swyddi yn amrywiol ond bod tuedd i'r mwyafrif o ymgeiswyr fod ag ychydig o eiriau o Gymraeg yn unig.
- Dim ond un sefydliad oedd heb ail hysbysebu o gwbl. I'r mwyafrif o sefydliadau (8/15), llai na hanner o'u swyddi gyda gofynion iaith Gymraeg a gafodd eu hysbysebu ddwywaith neu ragor yn ystod 2023 (Siart 5). Bu'n rhaid i ddau sefydliad ail hysbysebu pob un swydd â gofynion iaith Gymraeg.
- Ar y cyfan, nid oedd sefydliadau yn gostwng gofynion iaith wrth hysbysebu swyddi am yr eildro. Dim ond un sefydliad oedd wedi gostwng gofynion iaith Gymraeg dros hanner y swyddi a ail hysbysebwyd. Roedd wyth sefydliad arall wedi gostwng gofynion iaith swyddi llai na hanner yr amser wrth ail hysbysebu (Siart 6). Ceir enghraifft yn 'Astudiaeth Achos 1' o reolwr sy'n arddel yr arfer yma.

- Mae sefydliadau yn penodi staff heb y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi. Dywedodd tri sefydliad (20%) nad oedd yr un swydd wedi'u llenwi gan unigolyn oedd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Roedd dau sefydliad wedi penodi staff heb y sgiliau Cymraeg angenrheidiol i'r swydd hanner neu dros hanner yr amser. Nododd deg sefydliad bod llai na hanner y swyddi y gwnaethant eu llenwi yn 2023 wedi eu llenwi gan ymgeiswyr nad oedd ganddynt y sgiliau Cymraeg a nodwyd yn ofynnol yn yr hysbyseb swydd (Siart 7).

2. Disgrifio'r gofynion iaith a hysbysebu swyddi³

Disgrifio'r gofynion iaith – arferion

- Yn ôl data'r arolwg, mae sefydliadau yn categoreiddio gofynion iaith Gymraeg swyddi mewn sawl ffordd gwahanol i'w gilydd. Dywedodd chwech o'r 15 sefydliad eu bod yn categoreiddio swyddi yn ddau gategori – hanfodol a dymunol (Atodiad B, Siart 8). Dywedodd tri sefydliad bod ganddyn nhw system pedwar categori – hanfodol, dymunol, angen dysgu, ddim yn angenrheidiol. Dywedodd un sefydliad nad oes dull fel y cyfryw ganddynt o categoreiddio gofynion ieithyddol. Dywedodd pump sefydliad bod ganddyn nhw ddull 'arall'. Nododd y mwyafrif o'r rhain eu bod yn pennu 'lefel' sgiliau Cymraeg i bob swydd. Mae cryn amrywiaeth yn y ffyrdd mae sefydliadau yn cyfleu a disgrifio gofynion iaith Gymraeg eu swyddi. Defnyddia rhai systemau lefelau (e.e. Lefel 1-5) tra bod eraill yn defnyddio systemau deuaidd hanfodol/dymunol neu amrywiaethau ar y system honno (Siart 8 a Tabl 2).
- Ar y cyfan roedd trefn a chanllawiau yn eu lle ar gyfer pennu gofynion iaith swyddi. Mae saith o'r 15 sefydliad yn sicrhau bod rheolwyr yn dilyn canllawiau cadarn er enghraifft system siart llif wrth bennu gofynion iaith swydd. Gyda phump sefydliad, mae eu rheolwyr yn pennu categorïau swyddi gan dynnu ar fewnbwn cydweithwyr e.e. rheolwyr eraill neu swyddogion iaith (Siart 9). Nododd un sefydliad mai barn y rheolwr sy'n llywio proses categoreiddio eu swyddi. Yn 'Astudiaeth Achos 1' ceir enghraifft o reolwr sy'n dilyn canllawiau ac hefyd yn tynnu ar gyd-weithwyr i graffu ar ei waith o bennu'r gofynion.

Disgrifio'r gofynion iaith – ymateb i'r heriau

Defnydd siartiau llif/canllawiau cadarn

Daeth i'r amlwg yn ystod y broses cyfweld, ac wrth gasglu dogfennau polisi, bod rhai sefydliadau yn sicrhau bod rheolwyr yn dilyn canllawiau cadarn (e.e. system siart llif) wrth bennu gofynion iaith swydd. Ceir enghreifftiau o'r rhain islaw:

³ Gan nad oedd yr ymchwil yn archwilio cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, mae'n fwriadol nad ydym wedi gwahaniaethu rhwng defnydd sefydliadau o 'gategori' neu 'lefel' ieithyddol, ond yn hytrach wedi edrych ar y darlun cyffredinol, ac wedi canolbwyntio ar a ydy cyrff yn gosod gofynion o gwbl wrth hysbysebu swyddi, boed hynny ar ffurf categori neu lefelau manylach.


11) GOFYNION IAITH Y SWYDD

Ticiwch y blwch perthnasol (o leiaf un o bob adran, h.y. (i), (ii), (iii), (iv), (v) (C = Cymraeg / S = Saesneg)

		C	S
(i)	Gwrando		
1	Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg / Saesneg ["Ble mae...?", "Ga i siarad â...?"]		
2	Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg / Saesneg		
3	Yn gallu dilyn sgwrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg rhu		
4	Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgwrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp		
5	Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith		

Ffynhonnell: Rhan o bolisi recriwtio Cyngor Ynys Môn

Assessing Welsh Language Skill Requirement of Post Before Advertising



Ffynhonnell: Rhan o siart llif pennu gofynion iaith, Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru

Hysbysebu swyddi – arferion

- Nododd y rhan fwyaf o'r sefydliadau (9/15) bod gofynion iaith Gymraeg wedi eu gosod ar un ai pob swydd neu dros hanner y swyddi a hysbysebwyd ganddynt yn 2023 (Atodiad B, Siart 4). Nododd y gweddill (6/15) bod llai na hanner o'r swyddi a hysbysebwyd yn yr un cyfnod gyda gofynion iaith Gymraeg.
- Mae'r mwyafrif o'r sefydliadau (10/15) yn nodi categori gofynion iaith y swydd yn yr hysbyseb a'r swydd ddisgrifiad (Atodiad B, Siart 10). Roedd un sefydliad yn ei osod yn yr hysbyseb yn unig, un arall yn y swydd ddisgrifiad yn unig, a'r gweddill yn nodi gofynion yn y fanyleb personol.
- Mae'r mwyafrif o sefydliadau (9/15) yn cyfeirio ymgeiswyr at eu polisi iaith Gymraeg yn eu dogfennaeth hysbysebion swyddi (Siart 11). Mae tua tri chwarter y sefydliadau (11/15) yn nodi yn eu hysbysebion ac/neu ddisgrifiadau swyddi eu bod yn darparu

cefnogaeth i ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg (Siart 12). Dim ond saith o'r 15 sefydliad sy'n gosod amod ar ymgeiswyr nad sydd ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i'r lefel sy'n hanfodol / dymunol i'r swydd (Siart 13).

- Yn gyffredinol, pan ddaw at hysbysebu swyddi, mae pob sefydliad yn hysbysebu ar eu gwefannau eu hunain (Siart 14). LinkedIn yw'r ail fan mwyaf poblogaidd ar gyfer hysbysebu swyddi (12/15), gydag Indeed yn drydedd (9/15).
- Pan ddaw at hysbysebu *swyddi sy'n galw am sgiliau Cymraeg* mae bron pob sefydliad yn hysbysebu ar eu gwefannau eu hunain (14/15) (Siart 15). LinkedIn yw'r ail fan mwyaf poblogaidd (11/15), gydag Lleol.Cymru yn drydedd (9/15).
- Mae ychydig dros hanner y sefydliadau (8/15) yn hysbysebu oddi ar lein - e.e. mewn cylchgronau a phapurau newydd - yn ogystal ag ar lein (Siart 16).
- Nododd mwyafrif mynychwyr Seminar 1 eu bod yn hysbysebu swyddi sydd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg ar wefannau Cymraeg (e.e. Lleol.Cymru, Golwg360).
- Yn ystod Seminar 1, nodwyd ystod eang o leoliadau hysbysebu gwahanol (ffisegol a digidol) gan gynnwys: gwefannau'r sefydliadau, gwefannau eraill (e.e. LinkedIn, Facebook), posteri ar hysbysfwrdd cymunedol neu siop.
- Cyfeiriodd mynychwyr Seminar 1 at wefannau yr oedden nhw'n hoff ohonynt (yn eu plith oedd Facebook a Golwg360), ynghyd â gwefannau nad oedden nhw'n hoff ohonynt (yn eu plith oedd Safle Swyddi a Swyddle). Roedd yna wahaniaeth barn gydag ambell wefan (e.e. Indeed a Lleol.Cymru).
- Soniodd un mynychwr am dueddiad i neilltuo gofynion iaith wrth hysbysebu ar Facebook, oherwydd y canfyddiad y byddent yn lleihau apêl swyddi. Soniodd mynychwr arall eu bod yn amau bod algorithm Indeed yn gwneud iddo anwybyddu postiadau/hysbysebion Cymraeg eu hiaith.

Astudiaeth achos 1: profiad rheolwr o'r broses recriwtio

Rheolwr yw Rhydian⁴ ac yn ei waith mae'n gyfrifol am nifer o dimau gwahanol. Mae gan aelodau ei dimau gyswllt parhaus â'r cyhoedd, ac felly mae swyddi oddi fewn i'r timau yma fel arfer yn gofyn am sgiliau Cymraeg canolog/cryf.

Y broses

Pan ddaw at y broses recriwtio, mae Rhydian yn dechrau trwy osod lefel sgil Cymraeg ar y swydd – gan ddilyn y canllawiau sydd yn nogfen polisi recriwtio ei sefydliad. Nid yw'n dilyn siart llif. Wedi hyn, mae panel yn cael cyfle i ystyried y lefel a dyfarnu a yw'n briodol.

Mae Rhydian wedi hysbysebu trwy wefannau Cymraeg yn y gorffennol, ond nid yw'n medru cofio eu henwau. Gyda'r cyfweiliadau, mae ymgeiswyr yn derbyn yr opsiwn o gael eu cyfweld naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os yw ymgeisydd yn dewis Saesneg, mae disgwyl iddo ateb un cwestiwn yn Gymraeg.

Denu ymgeiswyr

Cydnabydda Rhydian nad yw bob tro'n hawdd dod o hyd i unigolion gyda'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen. Os yw'n methu â'i ymgais cyntaf i lenwi swydd sydd â gofynion iaith Cymraeg, mae yn gwneud cais i ostwng y lefel Cymraeg ac yn ail hysbysebu.

Mae hefyd yn ei chael hi'n anodd denu unigolion sydd â chyfuniad o'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol a'r sgiliau technegol penodol sydd eu hangen. Yn achos y swyddi rhain, mae wedi dod o hyd i ddatrysiad sef i flaenoriaethu'r Gymraeg. Gydag un o'i dimau mae wedi llenwi swyddi (rolau sy'n galw am sgiliau technegol penodol) trwy benodi unigolion â'r sgiliau

⁴ Defnyddir ffugenw yn yr astudiaeth achos hon.

Cymraeg angenrheidiol. Mae ef wedyn wedi gosod disgwyliadau ar yr unigolion yma i ddatblygu'r sgiliau technegol wrth weithio. Teimla'r rheolwr bod hyn yn haws na dysgu sgiliau Cymraeg i unigolion sydd â'r sgiliau technegol sydd eu hangen.

Heriau eraill

Mae Rhydian yn pryderu nad yw darpar ymgeiswyr yn deall system ei sefydliad o gategoreiddio gofynion iaith swyddi. Ei ofid yw bod unigolion cymwys yn cymryd nad oes ganddynt y sgiliau angenrheidiol – a hynny am nad ydyn wedi deall y gofynion yn iawn. Pwysleisia Rhydian bwysigrwydd nodi gofynion swyddi yn syml ac yn glir mewn hysbysebion swyddi a swydd ddisgrifiadau.

Gofid arall sydd ganddo yw cyfyngiadau amser. Pan fo angen llenwi swyddi cyn amser penodol mae'n cyfaddef bod sgiliau Cymraeg yn cael eu blaenoriaethu'n llai (a hynny am mai llenwi'r rolau yw'r flaenoriaeth yn anad pob dim).


Hysbysebu swyddi – ymateb i'r heriau

Fideos TikTok

Yn ystod Seminar 1, bu cryn drafodaeth am bosibiliadau cyfryngau cymdeithasol wrth hysbysebu. Nodwyd [gwaith cwmni BT ar TikTok](#) fel esiampl i'w hefelychu. Yn eu fideos hwy ceir mewnwelediad i fywyd bob dydd aelod staff. Ni nododd yr un mynychwr bod eu sefydliad yn arddel yr arfer hwn.

Fideo ar gyfryngau cymdeithasol

Mewn ymdrech i ddenu siaradwyr Cymraeg i'w gweithlu, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi fideos ar gyfryngau cymdeithasol. Pwrpas y fideos yw tynnu sylw at swydd lle mae galw am sgiliau Cymraeg, ac ynddynt (ceir enghraifft [yma](#)) mae deilydd presennol y swydd yn disgrifio'r rôl trwy gyfrwng y Gymraeg. Un mantais o'r fideos yw eu bod yn rhoi syniad i ddarpar ymgeiswyr – yn glywedol – o'r lefel Cymraeg sydd ei angen ar gyfer y rôl.




Ffynhonnell: Sgrinlun o fideo 'Siarad Cymraeg?'.


Fideos chwalu 'Mythau'

Dros haf 2022 mi gyhoeddodd Heddlu Gogledd Cymru gyfres o fideos ar gyfryngau cymdeithasol yn herio 'mythau' am yr hyn sydd ei angen i fod yn blismon. Cyhoeddwyd fideos am ddallineb lliw, tatŵs a'r Gymraeg ([dolen](#)). Pwrpas y fideo am y Gymraeg oedd i argyhoeddi'r cyhoedd nad oes yn rhaid bod yn siaradwr Cymraeg cwbl rhugl i weithio â'r llu.

Mae'r llu hefyd yn cyhoeddi fideos 'tu ôl i'r llen' sydd yn rhoi blas ar fywyd plismon. Saesneg yw iaith y fideos yma gan fwyaf, ond wele [yma](#) enghraifft Gymraeg sydd yn cynnwys siaradwyr â thafodieithoedd gwahanol.



Ffynhonnell: Sgrinlun o fideo herio'r 'mythau'.



Ffynhonnell: Sgrinlun o fideo 'tu ôl i'r llen'.

3. Cynnal cyfweiliadau ac asesu gallu a hyder iaith ymgeiswyr

Cynnal cyfweiliadau – arferion

- Mae mwyafrif helaeth y sefydliadau (14/15) yn sicrhau bod modd i ymgeiswyr nodi eu dewis-iaith ar gyfer y cyfweiliad o flaen llaw (Atodiad B, Siart 17). Ceir enghraifft o'r arfer hwn yn 'Astudiaeth Achos 1', a cheir enghraifft o'r gwrthwyneb yn 'Astudiaeth Achos 2'. Mae'r mwyafrif (11/15) yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr ar gyfer pob swydd (boed i'r swydd ofynion iaith Gymraeg ai peidio) fel rhan o'r broses recriwtio (Siart 18). Ceir enghraifft o unigolyn na chafodd gynnig yr opsiwn hwn yn Astudiaeth Achos 2.
- Mae pob sefydliad yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr mewn achosion swyddi sy'n galw am sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses recriwtio (Siart 19). Mae bron pob sefydliad (14/15) yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg i staff (Siart 20).
- Roedd mynychwyr Seminar 1 yn cytuno bod angen sicrhau bod mwyafrif y panel yn siaradwyr Cymraeg mewn achosion pan ddymunar ymgeisydd gyfweiliad Cymraeg.
- Roedd teimlad yn Seminar 1 bod rhaid i 'ethos iaith' y cyfweiliad adlewyrchu'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y sefydliad am fod hyn yn cynnig mewnwelediad i ethos ieithyddol y sefydliad i ymgeiswyr. Roedd teimlad bod perygl i ddarpar aelodau staff gael yr argraff nad oes gan y Gymraeg le canolog yn y sefydliad, os na ddefnyddir y Gymraeg wrth gyfweld.
- Rhannwyd y farn yn Seminar 1 ei fod yn allweddol bod trefniadau ieithyddol cyfweiliadau yn cael eu hegluro'n glir i ymgeiswyr.

Cynnal cyfweiliadau – ymateb i'r heriau

Rhestr o reolwyr sydd eisoes wedi cyfweld yn Gymraeg

Yn ystod Seminar 1, soniodd un mynychwr bod ei sefydliad yn gwneud defnydd o restrau o'r fath. Dywed bod staff ei sefydliad yn troi at y rhestr hon pan yn chwilio am gyfwelwyr, a bod hyn yn golygu nad oedd yn rhaid ymdrechu ar y munud olaf i ddod o hyd staff addas.

Banc cwestiynau

Yn ystod Seminar 1, soniodd un mynychwr am gronfa o gwestiynau (cwestiynau Cymraeg yn ogystal â Saesneg) yr oedd modd tynnu ohoni pan yn paratoi ar gyfer cyfweiliadau.

Asesu gallu a hyder iaith ymgeiswyr – arferion

- Daeth i'r amlwg yn Seminar 1 mai anaml yw'r arfer o asesu sgiliau iaith ymgeiswyr yn ffurfiol.
- Roedd teimlad yn Seminar 1 bod y broses o asesu sgiliau Cymraeg yn rhy ddwys, ac nad oedd sgiliau Saesneg yn cael eu craffu arnynt i'r un graddau. Rhannwyd y farn bod angen craffu llai dwys ar sgiliau Cymraeg.
- Rhannwyd y farn yn Seminar 1 bod gwaith i'w wneud o ran codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rheolwyr o wahanol lefelau/agweddau ar sgiliau iaith.

Asesu gallu a hyder iaith ymgeiswyr – ymateb i'r heriau

Ni ddaeth unrhyw ymatebion i'r heriau i'r amlwg yn ystod y gwaith ymchwil hwn.

Astudiaeth achos 2: profiad ymgeisydd o'r broses recriwtio

Y broses recriwtio

Mae Anna⁵ yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf nad ydyw yn hyderus iawn wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mynychodd ysgol Gymraeg, mae un o'i rhieni yn siarad Cymraeg, ac mae hi'n siarad yr iaith gyda rhai aelodau o'i theulu. Er hyn, ni wnaeth Anna ddatgan o gwbl ei bod yn siarad Cymraeg pan geisiodd am ei swydd bresennol, ac ni wnaeth ddefnydd o'r Gymraeg yn ystod y broses recriwtio.

Cafodd ei chyfweld yn Saesneg am ei swydd bresennol, ac nid oedd y ffurflen gais yn rhoi'r opsiwn iddi ddewis cael ei chyfweld yn Gymraeg meddai. Ni chafodd ei sgiliau Cymraeg eu hasesu cyn, yn ystod, nac ar ôl y cyfweiliad. Doedd dim un aelod o'r panel yn medru'r Gymraeg, meddai, ac o edrych yn ôl teimlai y byddai cyfweiliad Cymraeg wedi bod yn beth da iddi.

Wedi'r penodi

Bu'n gweithio am dair wythnos yn ei swydd cyn sylweddoli bod eraill ar ei thîm yn medru'r Gymraeg. Treuliodd ei hwythnosau cyntaf, felly, yn siarad Saesneg yn unig yn y gweithle. Bellach mae hi'n siarad Cymraeg gydag ambell un o'i chydweithwyr.

Mae Anna yn mynychu sesiynau paned a sgwrs bob pythefnos (pan fo amser yn caniatáu), ac yn y sesiynau rhain mae hi'n helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau. Teimla ei bod bellach yn defnyddio mwy o Gymraeg y tu hwnt i'r gwaith, ac mae hi o'r farn bod hynny'n rhannol oherwydd dylanwad y gweithle (h.y. y ffaith ei bod yn cael cyfle i ddefnyddio Cymraeg yno). Er hyn, gofid sydd ganddi o hyd yw y gallai golli ei Chymraeg trwy beidio â defnyddio'r iaith yn ddigonol.

Gweithio yn Lloegr

Yn flaenorol bu Anna yn gweithio am 10 mlynedd trwy gyfrwng y Saesneg yn unig yn Lloegr, ac mae'n teimlo bod hyn wedi tanseilio ei hyder yn ei Chymraeg. Wedi treulio degawd yn Lloegr, cam 'awtomatig' oedd llenwi'r cais am ei swydd bresennol trwy'r Saesneg yn unig, meddai.

4. Cynefino a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau yn y gweithle

Datblygu sgiliau yn y gweithle – arferion

- Nododd mwyafrif y sefydliadau (9/15) bod llai na hanner eu staff newydd - y rheiny a gafodd eu penodi am y tro cyntaf yn 2023 - wedi derbyn hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg (Atodiad B, Siart 21).
- Mae sefydliadau yn rhoi gwybod i staff, darpar staff ac ymgeiswyr swyddi am gyfleoedd dysgu/hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg mewn sawl ffordd. Daeth i'r amlwg mai dau ddull a ddefnyddir amlaf: rhannu gwybodaeth trwy e-byst i staff a rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd arfarnu perfformiad (Siart 22).
- Mae gan y mwyafrif o'r sefydliadau (10/15), drefn mewn lle i gefnogi, monitro ac arfarnu datblygiad sgiliau iaith staff a'r defnydd a wnânt o'r Gymraeg yn y gwaith (Siart 23).

⁵ Defnyddir ffugenw yn yr astudiaeth achos hon.

- Mae'r sefydliadau yn codi ymwybyddiaeth staff, darpar staff ac ymgeiswyr swyddi ynghylch eu natur dwyieithog trwy amryw o ddulliau (Siart 24). Codi ymwybyddiaeth trwy'r broses anwytho staff newydd yw'r dull mwyaf poblogaidd (13/15). Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith sydd ail (12/15).

Datblygu sgiliau yn y gweithle – ymateb i'r heriau

Tiwtor Cymraeg mewnol

Yn ystod Seminar 1, soniodd sawl mynychwr bod gan eu sefydliadau diwtoriaid Cymraeg mewnol a bod hyn yn eu galluogi i ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff yn fwy effeithiol.

Defnydd adnoddau 'Cymraeg Gwaith'

Cyfeiriodd mynychwr o un sefydliad, yn ystod Seminar 1, at adnoddau 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'u budd i gefnogi staff i ddysgu Cymraeg.

Cynllun Pencampwyr y Gymraeg/Cynllun mentora

Soniodd sawl un o fynychwr Seminar 1 bod ganddynt gynlluniau 'pencampwyr' a 'mentora' ar waith. Cynlluniau di-dâl yw'r rhain ac mae gweithwyr yn cyfrannu atynt o'i gwirfodd. Bu i Gyfoeth Naturiol Cymru ddarparu deunyddiau enghreifftiol o'u cynllun hwythau.

O dan eu cynllun mentora hwythau mae modd i aelodau staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl (unigolion lle Cymraeg yw eu hiaith gyntaf neu "ddysgwyr profiadol iawn") ddarparu cymorth i staff sy'n dysgu. Cynhelir sesiynau un i un - dim hwy na 30 munud - rhwng y mentor a'r dysgwr a rhoddir pwyslais ar ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg. Trwy'r system yma, y gobaith yw bod dysgwyr yn "[c]ael profiad o acenion gwahanol a chlywed Cymraeg yn cael ei siarad yn naturiol" (geiriau'r ddogfen 'Cynllun Mentora Dysgwyr Cymraeg').



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

**Cynllun Mentora Dysgwyr
Cymraeg**

Cyflwyniad i'r Cynllun Mentora

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i roi cymorth ymarferol i staff sy'n dysgu Cymraeg ac mae'n cyfeirio at fentora fel rhan o'r broses o weithredu ei Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

Ffynhonnell: Sgrinlun o'r ddogfen 'Cynllun Mentora Dysgwyr Cymraeg'.

Fel rhan o'r cynllun, darperir canllawiau i'r dysgwyr yn ogystal â'r mentoriaid.

Dyma enghreifftiau o gyngor a roddir yn y canllaw i ddysgwyr:

- Cofiwch nad yw eich mentor yn diwtor ac felly ceisiwch osgoi gofyn cwestiynau am ramadeg neu eirfa, ond gofynnwch sut i ddweud rhywbeth yn Gymraeg
- Os nad ydych yn deall unrhyw beth, gofynnwch i'ch mentor ailadrodd beth a ddywedodd

- Os nad ydych yn siŵr sut i ddweud gair, defnyddiwch y gair Saesneg a throwch i'r Gymraeg wedyn

Dyma enghreifftiau o gyngor a roddir yn y canllaw i fentoriaid:


- Cadwch bopeth yn syml ac yn anffurfiol, byddwch yn hyblyg o ran amser
- Peidiwch ag ymddangos fel eich bod yn gwybod y cyfan, na rhuthro drwy sesiynau, peidiwch â chywiro'r dysgwr a chwerthin pan fydd yn gwneud camgymeriadau, daliwch ati yn Gymraeg
- Peidiwch â gorffen y brawddegau. Mae'r dysgwr yn siarad yn araf oherwydd bod angen amser i feddwl


Cynllun hyrwyddwyr y Gymraeg

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru system 'Hyrwyddwyr' ar waith oddi fewn i'w sefydliad hwy. Dan y drefn yma mae siaradwyr Cymraeg rhugl y sefydliad yn medru derbyn ariantol (*stipend*) o £62.50 bob chwarter er mwyn cynorthwyo'u cydweithwyr i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Mae'r hyrwyddwyr yn derbyn ffurflen adrodd sydd yn amlinellu 10 tasg, ac mae disgwyl iddynt gwblhau o leiaf pump o'r rhain yn ystod y chwarter hwnnw er mwyn derbyn eu hariantol. Ymhlith y 10 tasg mae'r canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gweithle
- Siarad Cymraeg yn rheolaidd gyda chydweithwyr
- Helpu gyda gwaith recriwtio unigolion – ee diwrnodau agored neu gyfweiliadau.
- Cadw mewn cysylltiad â dysgwyr yn rheolaidd
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau'n ymwneud â'r Gymraeg ee y seminar blynyddol i Hyrwyddwyr

Mae angen cwblhau'r ffurflenni erbyn diwedd mis Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr; ac mae'r hyrwyddwyr yna'n derbyn taliad y mis canlynol. I gyd-fynd â'r ffurflen adrodd mae cytundeb a chanllawiau manylach.





Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

“Ar dân dros y Gymraeg”


Ffurflen adrodd ar gyfer Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg

- Dylid cwblhau'r ffurflen hon a'i hanfon yn ôl pob chwarter i [REDACTED] Os gwelwch yn dda, nodwch yr holl weithgareddau yr ydych wedi eu cwblhau a pha mor aml. Os nad ydych wedi cwblhau gweithgaredd benodol gadewch yr adran honno'n wag.

Enw:	Unwaith neu ddwy	Unwaith y mis	Bob wythnos am gyfnod	Arall
Rhif Gwasanaeth Tân:				
Dyddiad:				
Gweithgaredd				
1. * Cynorthwyo aelod staff i baratoi ar gyfer asesiadau Cymraeg lefelau 1-5 – nodwch pa mor aml, canlyniad y prawf, ac enw'r unigolyn a safodd y prawf. (Cysylltwch â [redacted] neu [redacted] i gael gwybod am aelodau staff sydd wedi gofyn am gymorth gyda'r profion)				

Ffynhonnell: Sgrinliniau o ffurflen adrodd hyrwyddwyr y Gymraeg.

Mae'r sefydliad hefyd yn darparu'r deunydd caled isod fel bod yr hyrwyddwyr yn medru codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd; ac er mwyn ysgogi mwy o staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y swyddfa, gorsaf, ac mewn cyfarfodydd.



Ffynhonnell: Lluniau o ddeunydd caled yr hyrwyddwyr

Allbwn

Yn sgil camau casglu tystiolaeth yr astudiaeth hon aethpwyd ati i gyd-gynhyrchu rhestr wirio hygyrch ar gyfer rheolwyr a recriwtwyr o fewn y sefydliadau sy'n aelodau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gogledd Cymru. Cafwyd cyfle yn Seminar 2 i fireinio'r allbwn ymhellach. Mae'r rhestr wirio yn amlinellu cyfres o gamau y gallai recriwtwyr eu cymryd a allai gryfhau eu hymdrechion i:

- ddenu ymgeiswyr gyda sgiliau Cymraeg
- rhoi profiad recriwtio cadarnhaol i ymgeiswyr, a
- chodi hyder ymgeiswyr a staff yn eu Cymraeg.

Mae fersiwn cryno o'r rhestr wirio 'Denu ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg' wedi ei chynnwys isod ar t16. Mae fersiwn manylach islaw ar tt 17-18. Dylid nodi nad canllaw cyflawn o'r broses recriwtio yn ei gyfanrwydd yw'r allbwn hwn.

Denu ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg

Pwrpas yr adnodd hwn yw i roi cyngor i chi ynghylch sut mae:

- Denu ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg
- Rhoi profiad cadarnhaol i ymgeiswyr
- Codi hyder ymgeiswyr a staff yn eu Cymraeg



Nid canllaw cyflawn o'r broses recriwtio yw'r adnodd hwn. Mae fersiwn manylach o'r adnodd hwn yn yr adroddiad.

Denu ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg



Ydych chi wedi...?

- Geirio testun y swydd ddisgrifiad a/neu'r fanyleb personol mewn modd sy'n gwneud y gofynion iaith yn glir ac sy'n hawdd i bawb ddeall
- Adnabod cysylltiadau a ffynonellau fydd o gymorth i ganfod ymgeiswyr e.e. ysgolion, prifysgolion, gwefannau
- Sicrhau bod popeth wedi ei ysgrifennu mewn arddull [Cymraeg Clir](#)

Rhoi profiad cadarnhaol i ymgeiswyr



Ydych chi wedi...?

- Ymdrechu i sicrhau bod mwyafrif y panel yn siaradwyr Cymraeg
- Sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r broses gyfsweld o ran y defnydd o gyfieithu ar y pryd neu beidio
- Penderfynu sut a phryd i asesu sgiliau ymgeiswyr yn y Gymraeg ac yn Saesneg (cyn, yn ystod neu ar ôl y cyfweiliad)
- Nodi'n eglur yn y ddogfennaeth cynnig swydd y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer cyraedd y lefel angenrheidiol

Codi hyder ymgeiswyr a staff yn eu Cymraeg



Ydych chi wedi...?

- Sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg wrth estyn croeso i'r unigolyn
- Gwneud defnydd o adnoddau [Iaith Gwaith](#) i annog defnydd y Gymraeg yn y gweithle

Denu ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg – fersiwn manylach

1. Disgrifio gofynion iaith a hysbysebu swyddi er mwyn denu ymgeiswyr gyda sgiliau Cymraeg

- **Dynodi gofynion a chategori iaith swyddi** Bydd angen diffinio'r gofynion iaith Gymraeg ar gyfer pob rôl yn nhermau lefelau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu. Os yw'r sefydliad yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, rhaid hefyd dynodi'r gofynion iaith yn un o'r pedwar categori canlynol - (i) hanfodol; (ii) angen dysgu pan benodir i swydd; (iii) dymunol; neu (iv) nid yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. Trwy nodi categori 'ii' mae modd gosod disgwyliadau ar yr ymgeisydd i gyrraedd y sgiliau yn y Gymraeg o fewn cyfnod rhesymol. Bydd angen gwneud trefniadau, wrth gwrs, i gefnogi hynny.

Paratoi'r hysbyseb a swydd ddisgrifiad Wrth hysbysebu'r swydd, gallwch fod yn greadigol am y ffordd rydych yn disgrifio'r gofynion neu lefelau ieithyddol ar gyfer y swydd er mwyn denu ymgeiswyr a gwneud y gofynion iaith yn glir. Gallwch hefyd egluro natur ddwyieithog y sefydliad, a sut mae'r sefydliad yn cefnogi unigolion i ddysgu ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn unol â gofynion y rôl.

Os yw'ch sefydliad yn gweithredu Safonau'r Gymraeg mae'n bwysig dilyn y cyngor a roddir yn [dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg](#) a nodi categori ieithyddol y swydd (ar gyfer swyddi a gategoreiddiwyd fel rhai lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn dymunol neu fod angen eu dysgu) wrth hysbysebu'r swydd. Mae nodi categori gofynion iaith y swydd yn y swydd ddisgrifiad, y fanyleb person a/ neu yr hysbyseb ei hun yn ateb y galw yma.

Cofiwch os ydych chi hefyd yn dewis gosod lefelau penodol ar gyfer sgiliau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu, bod angen nodi hynny yn ogystal â'r categori wrth hysbysebu.

- **Hyrwyddo** trwy:
 - marchnata, rhannu'r wybodaeth yn eang, ffair/ffeiriau swyddi, gwefan y sefydliad, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau arbenigol ar gyfer y maes sydd o dan sylw, poster mewn lleoliad cymunedol/siop, Canolfannau Gwaith, mudiadau Cymraeg, a phapurau bro. Mae angen bod yn greadigol – creu fideos, rhwydweithio, gofyn am help gan y gweithlu cyfredol i ledaenu'r gair. Ystyriwch hyrwyddo'r rôl drwy fideo fel yr un [hwn](#) ble mae aelod o staff yn disgrifio eu gwaith a sut mae nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Ystyriwch hefyd ofyn i dîm cyfathrebu'ch sefydliad am gymorth.
 - adnabod cysylltiadau a ffynonellau fydd o gymorth i ganfod ymgeiswyr (e.e. ysgolion, colegau, prifysgolion, partneriaethau, Mentrau Iaith, gwefannau (e.e. gwefan eich sefydliad, LinkedIn, Lleol.cymru, golwg360, cylchgronau, papurau newydd, papurau bro).
- **Ymgeisio** Gwneud y broses ymgeisio mor hawdd â phosib. Sicrhau bod dogfennau Cymraeg wedi eu hysgrifennu mewn arddull [Cymraeg Clir](#). Sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu nodi eu dymuniad i gael eu cyfweld neu asesu yn Gymraeg ar y ffurflen gais.

2. Cynnal cyfweiliadau ac asesu sgiliau a hyder iaith ymgeiswyr mewn modd sy'n rhoi profiad recriwtio cadarnhaol i ymgeiswyr

- **Creu rhestr fer o'r ymgeiswyr** Gwahodd yr ymgeiswyr sydd gyda'r sgiliau a chymwysterau perthnasol i gyfweiliad. Penderfyniad y sefydliad yw a ydynt ond am gyfweild ag unigolion sydd yn meddu ar y lefel o sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar adeg eu gwahodd i gyfweiliad, neu a ydynt yn fodlon gwahodd ymgeiswyr nad ydynt eto yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Dylid ystyried y gefnogaeth y gellir ei ddarparu i gefnogi ymgeiswyr i feithrin y sgiliau Cymraeg angenrheidiol.
- **Panel cyfweild** Ymdrechu i sicrhau bod mwyafrif y panel yn siaradwyr Cymraeg mewn achosion pan ddymuna'r ymgeisydd gyfweiliad Cymraeg. Trefnu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer aelodau'r panel cyfweild nad ydynt yn medru Cymraeg. Cyfieithu cais Cymraeg i'r Saesneg os oes aelodau o'r panel cyfweild yn ddi-Gymraeg.
- **Cwestiynau a thasgau asesu** Dewis cwestiynau a thasgau cyfweiliad yn Gymraeg a Saesneg o fanc o gwestiynau a thasgau dwyieithog.
